# PERTHYN

Mehefin 2026 Rhifyn 328



## Gobaith

Er mor feiddgar y barrug, – er yr hèth,
Ac ar waetha'r caddug
Oer ei wedd sy'n cuddio'r grug –
Daw'r haul i daro'r helyg.

Iwan Bryn James

# Gair y Gweinidog

Ac mae'n fis Mehefin! Anodd credu hynny, ond mae hi'n fis Mehefin a ninnau hanner ffordd trwy 2026. Un funud roeddem yn dathlu'r Nadolig ac yn awr rydym yn meddwl am ein gwyliau blynyddol. Mae amser yn hedfan! Mae'r dydd yn ymestyn, y tymheredd dyddiol yn cynyddu, ac o ganlyniad edrychwn ymlaen at bethau fel gwyliau a mynd am dro, bwyta yn yr awyr agored a gweithgareddau hamdden haf.

Fe'm ganwyd ym mis Mehefin a hynny ar fore Sul, yr ail fab i Emyr Ellis Roberts a Nancy Helen Roberts, ond dros y blynyddoedd mae dyddiad geni wedi dod yn llai pwysig. Dim ond dyddiad arall ar galendr amser, ond mae'r flwyddyn hon ychydig yn wahanol! Fis nesaf, rwy'n cyrraedd yr oedran lle caf ganiatâd i wneud cais am bas bws! Sylw Alwen yw fy mod yn gwneud peth mawr o hyn, fel petawn i eisiau clywed pobl yn dweud pethau fel 'Tydach chi ddim yn edrych fel eich bod yn chwe deg!' ac ati. Dim o gwbl! Rwy'n fwy llafar eleni oherwydd rwy'n rhyfeddu fy mod wedi cyrraedd yr oedran hwnnw ac o ganlyniad yn ymwybodol o lawer o bethau o'r newydd, a dim yn fwy nag amser a newid.

Byddai'n hawdd aros gyda'r ddeubeth yna. Yn ddiweddar cefais fy hun yng nghwmni gweinidogion a ddechreuodd eu gweinidogaeth tua'r un pryd, ac roedd cynnwys y sgwrs yn canolbwyntio ar newid. Mae cymdeithas wedi newid cymaint heb sôn am yr enwad a'r Eglwys yn gyffredinol yn ein gwlad. Mae newid yn rhywbeth sy'n rhan naturiol o fywyd ac felly'r alwad i adnabod, ymateb ac addasu. O wrthod ymateb, mae perygl o fodolaeth ddiystyr a diffygiol. Ond gydag unrhyw fath o newid, boed yn feddyliol neu'n faterol, mae yna ddyletswydd i gadw cydbwysedd rhwng yr hyn a drosglwyddwn i'n presennol a'r hyn a allai fod yn rhan o'n dyfodol.

Gallwn ymhelaethu, gan ein bod yn byw mewn cyfnod lle'r ydym yn dystion i gymaint o newid ym mywyd yr Eglwys, ond y tu

hwnt i hynny mae’r newid yn y modd y mae cymdeithas yn ymagweddu tuag at grefydd sefydledig. Ac yn sgil hynny, rhaid cydnabod yr alwad i gydnabod ac i ymateb gydag ymatebion ystyrlon, a hynny heb fradychu neu wadu'r hyn sydd yn ganolog i'r Gristnogaeth, a'r hyn sydd wedi cael ei gyhoeddi, ei bregethu, ar hyd y canrifoedd, sef y ddealltwriaeth o Dduw yng Nghrist.

A boed inni gofio pwysigrwydd sylweddoli o’r newydd fod Duw yn hyn i gyd yn dragwyddol!

Rwy’n hoff iawn o eiriau awdur Llyfr y Datguddiad (pennod 22 adnod 13):

‘Myfi yw Alffa ac Omega, y cyntaf a'r olaf, y dechrau a'r diwedd.’

Ond caf fy atgoffa hefyd nad yw oedran yn ddim byd mwy na rhif. Ie, fis nesaf byddaf yn dathlu carreg filltir yn fy mywyd, ond beth yw’r ots! Dim ond blwyddyn yn hŷn fydda’ i, a gobeithio, flwyddyn yn ddoethach! Yr hyn sy’n bwysig yw heddiw, ac yng ngoleuni fy mywyd presennol, a’r gwahanol berthnasau sy’n rhan o’r bywyd hwnnw, os oes unrhyw beth y gallaf ei gyflawni yn y presennol, unrhyw ddaioni, unrhyw gyfiawnder, unrhyw dda, yna gadewch i mi wneud hynny heddiw!

Oherwydd yn amrywiaeth ein hymatebion, rydym yn caniatáu i deyrnas Dduw fod yn weladwy yn ein presennol ac nid yn unig yn ein gorffennol.

Mae'r haf wedi cyrraedd, gobeithio! Mwynhewch!

Eifion

# Newyddion Ebeneser




## Cofion . . .

Anfonwn ein dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser.

Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n derbyn gofal yn eu cartrefi ac sy'n methu ymuno yn y gwasanaethau. Rydym yn cofio'n gynnes iawn atoch.

## Gwasanaethau

**7 Mehefin** – Gwasanaeth Cymun
**21 Mehefin** – Gwasanaeth

Bydd y gwasanaethau o dan arweiniad y Gweinidog, y Parch Eifion Roberts am 2.15 y prynhawn.

Diolch yn fawr i Denise Morgan am ei gwasanaeth yn paratoi'r bwrdd Cymun bob mis.

*I'r rhai sydd heb fod yn yr oedfaon yn Ebeneser, beth am ymuno ambell Sul? Mae bob amser groeso cynnes yn eich disgwyl.*

## Diolch

Diolch yn fawr i Tom Morgan am dorri'r lawnt o flaen Capel Ebeneser. Mae'r capel yn edrych mor daclus a graenus ac mae'n werth ei weld. Diolch o galon.
*Un da yw Tomi!* (Golygyddion)

# Newyddion Morfa

Anfonwn ein cofion at y rhai sydd wedi bod yn yr ysbyty, ac at y rhai sy'n derbyn gofal mewn cartrefi gofal neu yn eu cartrefi eu hunain.

## Cydymdeimlo

Trist yw cyhoeddi marwolaeth Mr J. Daniel, Ffordd Penglais. Cydymdeimlwn â'i briod, Mrs Megan Daniel, a'r teulu.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau enfawr i Bethan Bryn ar ei champ yn gosod awdl Y Gwanwyn gan Dic Jones ar Gerdd Dant. Roedd y perfformiad cyntaf yng Nghapel y Morfa nos Wener, 15 Mai. Roedd y côr yn cynnwys cantorion o wahanol ardaloedd yng Ngheredigion, ac o Gwmtirmynach ger y Bala gyda'u hyfforddwr, Arfon Williams. Roedd nifer o aelodau'r Morfa hefyd yn canu yn y côr. Aeth elw'r noson tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

Llongyfarchiadau i Mari Turner ar dderbyn ei doethuriaeth yn dilyn blynyddoedd o ymchwlio a chreu ar gyfer Theatr Arad Goch. Ychydig fisoedd yn ôl roeddem yn llongyfarch Jeremy yntau ar dderbyn ei ddoethuriaeth. Diolch yn fawr i chi'ch dau am eich cyfraniad i fyd y ddrama yma yn lleol ac yn rhyngwladol.

## Geni

Llongyfarchiadau i John a Siân Davies ar enedigaeth eu hŵyr, sef Wiliam Jac, mab i Geraint a Kate yng Nghaerdydd, brawd Alys Haf.

## Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i nifer o'r plant a'r ieuenctid a fu'n cystadlu a chael llwyddiant yn Eisteddfod Aberystwyth a'r Cylch a gynhaliwyd yn Ysgol Penweddig ddechrau Mai. Roedd nifer ohonynt yn cystadlu hefyd mewn amrywiaeth o gystadlaethau ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ystod hanner tymor.

# MAN CYNNES . . .

COFIWCH am y **MAN CYNNES** (Paned, Cawl a Chymdeithas) yn festri'r Morfa bob dydd Mercher o 11 tan 2 o'r gloch.

Diolch yn fawr i bawb sy'n cynorthwyo ac yn croesawu.

Mae croeso cynnes i bawb.

---


## **Dyddiad i'w gofio**:

## **Dydd Sul, 5 Gorffennaf am 10.30 yb**

Sul Hwyl yn Ysgubor Digwyddiadau Fferm y Bargoed, Llwyncelyn (Moody Meadows) ar gyfer plant, ieuenctid ac oedolion yr Henaduriaeth.

Gwasanaeth yng nghwmni Martin Geraint, cinio a gweithgareddau antur i ddilyn, ar gyfer y plant a'r ieuenctid.

# Darlith Morlan-Pantyfedwen 2026
# Crefydd ym Mhrifysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain




Traddodwyd darlith Morlan-Pantyfedwen 2026 gan yr Athro Mathew Guest o Brifysgol Durham ar rôl crefydd mewn prifysgolion cyfoes. Dyma destun sy’n berthnasol iawn i ni yma yn Aberystwyth, wrth gwrs, lle mae’r Brifysgol yn rhan ganolog o fywyd y dref. Ac mae’n destun o ddiddordeb personol i mi hefyd yn sgil fy rôl fel darlithydd yn y Brifysgol.

Ar sail cryn dipyn o ymchwil, byrdwn ei ddadl oedd bod perthynas gymhleth iawn rhwng prifysgolion a chrefydd. Ar y naill law, gallai tensiwn fodoli rhwng crefydd a phrifysgolion. Nododd, er enghraifft, sut roedd rhai myfyrwyr a staff yn dewis cuddio eu credoau o fewn y brifysgol am sawl rheswm, gan gynnwys yr angen i gael eu derbyn gan eraill ac am iddynt gredu nad oedd crefydd yn gydnaws bob tro gyda’r ffyrdd mwy ‘rhesymegol’ a gwyddonol o feddwl a ddysgir mewn addysg uwch. Ar y llaw arall, roedd ganddo hefyd ddadl fwy gobeithiol, gan haeru bod gan brifysgolion y potensial i hyrwyddo ‘cyfarfyddiadau pryfoclyd’ rhwng pobl o grefyddau a chredoau gwahanol. Roedd y cyfarfyddiadau hyn, yn ôl Mathew Guest, yn gyfrwng i alluogi carfanau gwahanol i werthfawrogi eu crefydd eu hunain, yn ogystal â chrefyddau pobl eraill, mewn ffyrdd newydd. Roedd ganddynt hefyd y potensial i fod yn gyfrwng pellach i hyrwyddo cymod rhwng carfanau crefyddol amrywiol.

Roedd modd cwestiynu rhai o’i ddadleuon. Efallai bod ei ddadl yn euog o ddelfrydiaeth ar brydiau. Rydym yn ymwybodol, er enghraifft, o’r rhaniadau crefyddol – ac yn aml y rhaniadau rhwng enwadau

Cristnogol gwahanol – ar gampws Prifysgol Aberystwyth ac yn y dref. Yn ogystal, roedd tueddiad ganddo i gyffredinoli braidd wrth sôn am 'y Brifysgol'. Mae'n amlwg bod y profiad o fod yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth – ac ymwneud pobl â chrefydd – yn wahanol iawn o'i gymharu â phrofiadau myfyrwyr ym Mhrifysgol Durham, heb sôn am Alabama neu North Carolina.

Er hyn, gwerthfawrogais y neges gadarnhaol oedd ganddo. Yn sicr, anogodd fi yn bersonol i feddwl am sut y gall Prifysgol Aberystwyth alluogi mwy o 'gyfarfyddiadau pryfoclyd' i ddigwydd ar y campws ac yn y dref. Sut y gallwn ni hefyd, garedigion y Morfa a'r Morlan, annog y fath gyfarfyddiadau yn ein gwaith a'n cenhadaeth yn y dref?

Daeth cynulleidfa fawr ac amrywiol iawn ynghyd i glywed ei ddarlith, gan ddangos unwaith eto werth y Morlan fel cyfrwng i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Cadeiriwyd y noson yn gelfydd iawn gan y Dr Hefin Jones o Brifysgol Caerdydd – un sy'n llwyddo i bontio bywyd prifysgol a chrefydd ar lefel broffesiynol a phersonol. Diolch yn fawr iawn i'r trefnwyr am noson ddifyr a phryfoclyd iawn.

Rhys Jones



# Gweddi



Dros ein gwaith

Arglwydd,
  rhannol ac amherffaith yw ein gwaith drosot ti.
Hoffem gyffwrdd â'r byd er daioni,
  ond mae'n cyffyrddiad yn aml yn drwsgl a niweidiol.
Hoffem ofalu am y dy greadigaeth,
  ond yr ydym mor aml yn ei llygru ac yn gwastraffu ei hadnoddau.
Hoffem wasanaethu rhai llai ffodus na ni,
  ond yr ydym yn amharod i rannu'n aberthol ag eraill.
Hoffem sefyll dros y gwir,
  ond mor aml yr ydym yn dawedog yn wyneb gormes a drygioni.
Hoffem rannu'n ffydd yn llawen a ffyddiog,
  ond y mae swildod a diffyg ymddiriedaeth ynot ti yn ein hatal.
Y mae dy angen di arnom ni, Arglwydd,
  i'n cynorthwyo, i'n calonogi
  ac i'n gwneud yr hyn yr wyt ti am i ni fod –
  cydweithwyr â thi
  a chyfryngau mwy effeithiol i'th deyrnas yn y byd

Amen

(Elfed ap Nefydd Roberts, *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

# Cerddwn ymlaen i'r yfory . . .

Rai misoedd yn ôl rhannwyd cynlluniau ar gyfer datblygiadau posib y dyfodol mewn dau gyfarfod gyda'r gynulleidfa a thrwy rifyn arbennig o **Perthyn**. Cafwyd cyfle i glywed ymatebion amrywiol a'u hystyried yn ofalus, ac rydym yn ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi ymateb.
Y camau y cytunwyd arnynt yw:

1. Ein bod yn symud ymlaen gyda'r 'opsiwn ffafredig' sef addasu Capel y Morfa i fod yn ofod hyblyg a fydd yn addas ar gyfer addoli ynghyd â datblygu'r wedd genhadol / ddyngarol o'n cenhadaeth.

2. Ein bod yn trafod gyda'r Henaduriaeth am arian i gefnogi Swyddog Prosiect am dair blynedd i oruchwylio'r prosiect.

3. Ein bod yn adfer y Pwyllgor Rhaglen, h.y. swyddogion a rhaglen.


4. Ein bod yn dechrau trafodaeth parthed apwyntio person ychwanegol i 'ymestyn allan'.

**Mae her a chyfle o'n blaen. Nid yw newid byth yn hawdd, ond gadewch inni ymateb yn weddigar ac yn ffyddiog er mwyn ceisio cyflawni ein gweledigaeth. Gadewch inni hefyd fod yn un mewn ffydd a gobaith.**

Un cam ar daith newid yw'r disgwyliad y bydd eglwys Elim, sy'n addoli ar hyn o bryd yn Nhan-y-cae, yn llogi Morlan am gyfnod.

Dymunwn bob bendith ar y symudiad hwn.

Rhidian
Ar ran y blaenoriaid


CYSEGR
cymundeb, cynhaliaeth
CYMUNED
cyfeillgarwch, cydweithio
CYMDEITHAS
cariad Crist ar waith
Banc bwyd / adnoddau
Arddangosfeydd
Cynadleddau
Cyngherddau
Darlithoedd
Cyngor ar bopeth
Cyrsiau
Cyfleusterau cyfarfod a fideo gynadledda
Dangos ffilmiau
Gofod theatr
Ffeiriau / Marchnadoedd
Dosbarthiadau llesiant
Croeso
Lle cynnes
CYMDEITHAS
Cyd-goginio a chyd-fwyta
Gweithgareddau codi arian
Gweithgareddau llesiant
Tê a choffi
Pwyllgorau
Dawnsio
Chwaraeon
Ysgol Sul
Swyddfa
Cymdeithasu
Grwpiau trafod
Grwpiau plant a phobl ifanc
Adloniant
Grwpiau crefftau
Cyfarfodydd gweddi
CYMUNED
Cynghori unigol
Priodasau
Bedyddio
Cymundeb
Angladdau
CYSEGR
Gwasanaethau ar y Sul
Gwyliau crefyddol
Gweddi unigol

# Dod i adnabod ein haelodau newydd

Braf medru croesawu Owain, Hawys, Erin a Beca i'n plith yn ddiweddar. Dyma gyfle i ddarllen tipyn am eu hanes.

## OWAIN, HAWYS, ERIN A BECA
## Soniwch ychydig am eich cefndir a'ch magwraeth



**Hawys**: Roeddwn i wrth fy modd yn byw ym mhentref hyfryd Llandudoch, ger Aberteifi. Yn ferch i athrawes a phrifathro, ces i fagwraeth hapus iawn mewn cartref lle roedd y Gymraeg a'r diwylliant yn ganolog. Dwi'n cofio clywed gan fy rhieni am gyffro protestiadau Cymdeithas yr Iaith yn y 1970au a hyn yn sicr yn siapio fy nghred a'm hangerdd innau at y Gymraeg hyd heddiw. Ces i fy addysg uwchradd yn Ysgol y Preseli, Crymych, a chael profiadau gwych fel prif ferch yr ysgol, yn aelod o Aelwyd Crymych a chôr Ysgol Gerdd Ceredigion y tu allan i'r ysgol hefyd.

**Owain:** Symudodd fy rhieni o Ddyffryn Conwy i Benrhyn Llŷn pan oeddwn i'n dair oed ac fe es i'r ysgol yn y pentref, yna i Ysgol Nefyn, Ysgol Uwchradd ym Motwnnog, a Choleg Meirion Dwyfor ym Mhwllheli, cyn mentro i Aberystwyth i astudio Ffiseg yn 2001.

## Y Cartref a Christnogaeth

**Hawys**: Ces i fy magu, gyda'm chwaer Siwan, yn mynychu Capel Degwel yn Llandudoch lle priododd Owain a fi yn 2009. Roedd yr Ysgol Sul yn rhan bwysig o'm plentyndod, gyda Mam yn dysgu yno, a Dad yn ddiacon yn yr un capel hyd heddiw. Yn 2007, teithiais gyda CWM i Botswana, lle bues yn gweithio gyda chymunedau ac yn ymweld ag ysgolion a chartrefi plant a oedd wedi colli rhieni o ganlyniad i HIV ac AIDS. Profiad sydd wedi aros gyda fi hyd heddiw.

**Owain**: Roedd Capel Moreia, Morfa Nefyn, ble roedd fy nhad yn weinidog yn rhan bwysig o'm magwraeth ac fe ddes i ffydd yn Iesu Grist yn ifanc. Roeddwn wedi fy mendithio hefyd gyda theulu estynedig a oedd yn addoli mewn eglwysi Cymraeg a Saesneg gyda thraddodiadau gwahanol. Fe roddodd hynny ddealltwriaeth i mi fod hanfodion pwysig y ffydd Gristnogol yn croesi ffiniau ieithyddol, diwylliannol a diwinyddol. Roeddwn yn un o'r rhai cyntaf i fynychu cwrs arweinyddiaeth *Souled Out* yng Ngholeg y Bala. Cefais y fraint hefyd o wasanaethu fel cadeirydd pwyllgor Gobaith i Gymru, yr elusen a oedd yn cefnogi Arfon Jones yn y gwaith o baratoi cyfieithiad Beibl.net a chefnogi gwaith cenhadol trwy adnoddau a gwaith ysgolion.

Fel myfyrwyr, buom yn mynychu capel Seion yn Aberystwyth, lle cawsom groeso cynnes a chefnogaeth gan y gynulleidfa a'r gweinidog, y Parch Andrew Lenny. O gyrsiau Alffa i weithgareddau'r Ysgol Sul, mae gennym atgofion gwerthfawr o'r cyfnod hwnnw. Bedyddiwyd ein merched yno, ac yn sicr rydyn ni'n hynod ddiolchgar i'r bobl a wnaeth roi amser a chefnogaeth i ni wrth i ni dyfu o fod yn fyfyrwyr i fagu teulu yn yr eglwys.

## Gyrfa a bywyd mwy diweddar

**Hawys**: Cyfarfu Owain a minnau yn y Brifysgol yn Aberystwyth. Wedi cwblhau fy ngradd MPhil, dechreuais weithio gyda'r Urdd fel Cynorthwy-ydd Cyfathrebu, cyn symud ymlaen i rolau cyfathrebu a marchnata yn y Llyfrgell Genedlaethol, Prifysgol Aberystwyth, a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Bellach, rwy'n Bennaeth Cyfathrebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg ac yn mwynhau amrywiaeth y swydd yn fawr.

**Owain:** Rydw i wedi bod mewn nifer o rolau gwahanol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ers gorffen PhD mewn Ffiseg. Dwi'n gweithio yn bennaf gyda chasgliadau digidol ac yn fwy diweddar fel rheolwr. Erbyn hyn dwi'n Gyfarwyddwr Casgliadau.

## Diddordebau a bywyd teuluol

Ar hyn o bryd, mae ein hamser yn canolbwyntio'n fawr ar weithgareddau'r plant! Mae Erin ym mlwyddyn 8 ym Mhenweddig, a Beca ym mlwyddyn 6 ac yn gorffen yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth eleni. O farchogaeth i ddawnsio bale a chlocsio, mae'r rhestr yn hir, ond rydym yn gwerthfawrogi'r gymuned a'r cyfeillgarwch sy'n dod yn sgil y gweithgareddau hyn yn fawr iawn.



Mae'r ddau ohonom yn mwynhau cerddoriaeth ac wedi bod yn aelodau o gorau ar hyd y blynydd-oedd. Yn ddiweddar, roedd hi'n braf canu gyda Lleisiau Gwyddno yn yr Ŵyl Gerdd Dant yn Aberystwyth. Rydym hefyd yn mwynhau teithio. Un uchafbwynt oedd ein taith o amgylch y byd pan ymwelsom â nifer o

wledydd gan gynnwys Awstralia a Seland Newydd, ac roedd ein mis mêl yn teithio Canada hefyd yn fythgofiadwy. Erbyn hyn, mae gwyliau teuluol i Ffrainc yn draddodiad blynyddol, a'r ddau ohonom yn gweithio'n galed i atgyfodi'r Ffrangeg a ddysgasom yn yr ysgol!

**Ymuno â Chapel y Morfa**

Un o'n blaenoriaethau fel rhieni yw sicrhau bod ein plant yn rhan o gymuned Gristnogol. Un o'r prif resymau dros ymuno â Chapel y Morfa oedd y bwrlwm a'r ymroddiad o amgylch yr Ysgol Sul. Rydym wedi cael croeso arbennig o gynnes, ac yn gwerthfawrogi'n fawr y gymuned agos a chefnogol rydyn ni bellach yn rhan ohoni.

---

# Cylch Gweddi a Choffi bore dydd Mawrth

Mae'r Cylch Gweddi a Choffi sy'n cyfarfod bob bore Mawrth yn cyfarfod yn y Festri (10.30) ac ar Zoom (11.00) am yn ail wythnos.

COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!
www.capelymorfa.cymru

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif Capel y Morfa ar Facebook

# Gŵyl Genhadol y De

Cynhaliwyd Gŵyl Genhadol y De yng Nghapel Blaenannerch ddydd Iau, 21 Mai. Arferid ei galw yn Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De ond ar ôl trafodaeth yn y cyfarfod blynyddol cytunwyd i newid yr enw i Gŵyl Genhadol gan sicrhau ei bod yn gynhwysol ac yn agored i bawb. Daeth nifer dda ynghyd o Henaduriaethau'r De gyda chefnogaeth dda o eglwysi gogledd a de Ceredigion.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Bronwen Morgan ac estynnwyd croeso cynnes ar ran Capel Blaenannerch gan Margaret Daniel a oedd yn allweddol yn y trefniadau. Cafwyd ychydig o hanes y capel ganddi a darllenodd gywydd croeso a gyfansoddwyd gan ei brawd, y bardd Dic Jones, i groesawu Sasiwn y De i Flaenannerch nifer o flynyddoedd yn ôl.

Y siaradwr cyntaf oedd Dr Eryn White a wahoddwyd i roi hanes Evan Roberts a'i gysylltiad â Chapel Blaenannerch. Profodd dröedigaeth wrth addoli ym Mlaenannerch ym 1904 gan ddechrau Diwygiad 1904. Mae ei enw ar y sedd lle'r eisteddai ac mae arddangosfa gynhwysfawr yn adrodd yr hanes wedi ei gosod gerllaw gan un o aelodau ifanc y capel. Mae Blaenannerch yn denu nifer o grwpiau o America sydd å diddordeb yn hanes Evan Roberts i ymweld â'r capel cyn mynd ymlaen i Gei Newydd oedd yn llecyn allweddol arall yn hanes y Diwygiad.

Yr ail siaradwr oedd y Parchedig Geraint Morse a wahoddwyd i sôn am genhadaeth heddiw a'i her i ni. Wrth gyfeirio at stori Evan Roberts cafwyd enghreifftiau ganddo o eraill a brofodd dröedigaeth a mynd ymlaen i rannu eu stori. Un ohonynt oedd William Holland o sir Benfro a fu'n ddylanwad ar John Wesley. Gofynnodd Geraint Morse i ni beth oedd Ein Stori Ni – stori, nid i'w chadw i ni ein hunain ond i'w rhannu ag eraill.

Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd siec i Marian Simkin, Llywydd Is-bwyllgor Cenhadol Cenedlaethol EBC ar ran eglwysi'r De. Roedd yn cynnwys yr holl gyfraniadau a dderbyniwyd tuag at brosiectau cenhadol yma yng Nghymru ac mewn gwledydd tramor megis Lesotho, Hwngari a Romania. Diolchodd Marian Simkin i'r eglwysi am eu haelioni a'u hymrwymiad i'r gwaith.

Cyflwynodd Sarah Morris lyfr thema ar gyfer y flwyddyn nesaf, sef Gras ein Harglwydd Iesu Grist – a chariad Duw a chymdeithas yr Ysbryd Glân (2 Corinthiaid 13:13). Mae'n thema gyfoethog ac mae'r llyfr yn adnodd ardderchog ar gyfer defosiwn personol, astudiaethau ac addoliad. Mae'n siŵr y bydd cyfle hefyd i rannu ychydig o'r deunydd trwy gyfrwng *Perthyn*.

## Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol

Bydd y cinio Bara a Chaws nesaf **yn Seion, Stryd y Popty**, **ddydd Llun**, **1 Mehefin**, rhwng 12.00 a 1.30pm.

**Croeso cynnes i bawb – Dewch i gefnogi!**

# Clwb Sul Capel y Morfa

Yn ystod mis Mai buom yn rhannu’r storïau am Iesu’n cyfarfod â’r disgyblion yn dilyn yr atgyfodiad ac yn dysgu am lawenydd Tomos pan ddaeth i’w adnabod. Roedd Iesu wedi dod i rannu ei gariad a’i dangnefedd. Mae ymateb Tomos wedi iddo weld a theimlo ôl yr hoelion i’w weld yn y geiriau ar y faner yn y festri sef – FY ARGLWYDD A’M DUW. Roedd Iesu yn cyfarch Tomos wrth ei enw, yn rhoi ail gyfle iddo ac yn ei dderbyn gyda breichiau agored. Llwyddodd yr ieuenctid i greu plac allan o glai gan naddu eu henwau yn y clai.

Ar Sul cyntaf Wythnos Cymorth Cristnogol, trwy gyfrwng fideo, rhannwyd stori Fridah yn Cenia a’r modd y mae hi’n cynnal ei theulu a’i chymuned trwy dyfu bwydydd sydd yn addas i’w tyfu er y sychder a’r llifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd. Mae’r cymorth oddi wrth Gymorth Cristnogol yn ei helpu i wneud hyn. Bu’r plant yn cwblhau’r tasgau ar daflenni a baratowyd gan Gymorth Cristnogol. Roedd cyfle iddynt baratoi gweddïau er mwyn gweddïo dros Fridah a thros eu teuluoedd a’u ffrindiau eu hunain. Gwnaed casgliad ar y diwedd i’w ychwanegu at gasgliad yr oedolion trwy gyfrwng amlenni Cymorth Cristnogol.

Daeth plant a ieuenctid ysgolion Sul Gogledd Ceredigion ynghyd i addoli ac i ganu mawl o dan arweiniad Gregory Veary-Roberts yng nghapel Bethel ar 17 Mai. Cyflwynwyd emyn gan bob Ysgol Sul a Chlwb Sul, yn cynnwys Clwb Sul y Morfa.

Diolch yn fawr i’r plant a’u rhieni am eu cefnogaeth.



Dywedodd Iesu, “Tangnefedd i chi!”
Atebodd Tomos, “Fy Arglwydd a’m Duw.”


Mae Duw yn galw pob un fel unigolyn.







Dysgu am Fridah a'i theulu yn Cenia yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.









Ymarfer cyflwyno emyn cyn mynd i Gymanfa Ganu y plant yng nghapel Bethel

# SULIAU MEHEFIN 2026

**Blaenor y Mis**: Rhys Jones

**7 Mehefin**: Eifion Roberts (Cymun)
**14 Mehefin**: Geraint Tudur
**21 Mehefin**: Eifion Roberts
**28 Mehefin**: Dafydd Andrew Jones

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch, ac os hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ag unrhyw un ohonynt ar Zoom, cysylltwch ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com

## Blodau Mehefin 2026



**7 Mehefin**: Rhys a Jenny Jones
**14 Mehefin**: Ifor a Valmai Davies
**21 Mehefin**: Eifion ac Alwen Roberts
**28 Mehefin**: Joyce Knight a Violet Holden

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Diolch hefyd i bawb sydd wedi anfon cyfraniadau i'r rhifyn hwn, yn lluniau ac adroddiadau.

Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer rhifyn Gorffennaf at Rocet Arwel Jones (rocetarwel@yahoo.com) neu Sharon Owen (sharonowen527@btinternet.com) erbyn **dydd Gwener, 19 Mehefin 2026**, yn ddi-ffael, os gwelwch yn dda.